Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Cylch Meithrin Edern

Rhif Elusen: 1191036

Blwyddyn Ariannol yn cychwyn: 01/04/2023

Blwyddyn Ariannol yn darfod: 31/03/2024

Cyfeiriad:

Cylch Meithrin Edern,

Canolfan Gymunedol Edern,

Lôn Gerddi,

Edern,

LL53 8YS

Ymddiriedolwyr

Lowri Williams

Sera Glyn Jones

Medi E Davies

Crynodeb:

Eleni gwelwyd niferoedd plant ar lyfrau ’r Cylch yn gostwng, gyda rhai yn talu ffioedd a sawl un ar y Cynllun Gofal Plant (3 oed). Rydym fel Pwyllgor, gyda chymorth y Swyddogion, wedi bod yn rhagweithiol eto yn ein ymdrechion i ddatblygu’r Cylch a chodi arian yn ystod y flwyddyn ariannol hon 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024. Mae tri sesiwn yr wythnos, gydag niferoedd isel o blant yn mynychu ar ddydd Llun ond mwy o gefnogaeth i’r sesiynau dydd Mawrth a Iau, sy’n nôl y plant o ddosbarth Meithrin Ysgol Edern sy’n fuddiol iawn i rieni.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, roeddem yn llwyddiannus yn derbyn dau grant. Derbyniwyd grant gan Cyngor Gwynedd ar gyfer ein helpu i ariannu gwaith tarmacio ardal chwarae y Ganolfan a phrynu uned newid clytiau newydd. Derbyniwyd Grant Degwm hefyd gan Gyngor Gwynedd i brynu offer chwarae pren i’w gosod yn iard chwarae’r Cylch.

Ym mis Medi, cododd Y Ganolfan swm ein rent o £6 y sesiwn i £10 y sesiwn, ac ystyrir bod hyn wedi cael cryn effaith ar ein sefyllfa ariannol.

Cafwyd rhodd ariannol gan Gyngor Cymuned Tudweiliog i helpu i brynu carped a llyfrau ac fe werthfawrogir eu cyfraniad hael.

Cafwyd sawl gweithgaredd i gasglu arian yn cynnwys cwis lluniau a Raffl Sgratch Cards a Raffl Hamper Nadolig. Cynhaliwyd Taith Gerdded y plant a Noson Disgo Calan Gaeaf hefyd sydd wastad yn cael cefnogaeth. Mae biniau ailgylchu dillad Antur Waenfawr hefyd yn gymorth i ddod ac arian cyson i'r Cylch.

O ran gwariant, ein prif gostau yw cyflogau ein Swyddogion (2). Mae'r rhent hefyd wedi cynyddu yn sylweddol eleni o gymharu a blynyddoedd ariannol blaenorol.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein adnoddau hefyd, gyda'r grantiau i gyd wedi eu gwario ac mae cyflwr y Ganolfan ac ein adnoddau wedi gwella.

Fe welwch o'r Gyfriflen Incwm a Gwariant canlynol bod coffrau'r Cylch yn sefydlog.

Trown ein golygon ar barhau i ddatblygu'r Cylch a gwella ein adnoddau, i sicrhau dyfodol hir dymor y Cylch. Gobeithio y byddwn yn parhau i gael cefnogaeth yn y flwyddyn ariannol newydd.

Arwyddwyd gan M E Davies

Medi E Davies (Trysorydd)

Dyddiad: 26 Mehefin 2024

Cylch Meithrin Edern,

Canolfan Gymunedol Edern, Lôn Gerddi, Edern, LL53 8YS

Mantolen ariannol am y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 -31 Mawrth 2024

Ysgol Feithrin Edern	2023/24		*Diweddarwyd 18/05/2024*
			UNION / EXACT
			Blwyddyn / Year 1.4.23 - 31.3.24
			£
INCWM / INCOME			
Grant Mudiad Meithrin Grant			-
Grant Arian Plant 3 oed /3yr old Education Funding Grant			6,900.00
Grant Cynaladwyedd /Sustainability Grant			-
Grant Dechrau'n Deg /Flying Start Grant			-
Grantiau Eraill / Other Grants			6,492.00
Incwm Hyfforddi(e.e CWG) a DwyloYchwanegol /Training			-
Ffioedd Plant / Children's Fees			5,181.00
Codi Arian / Fundraising			798.11
Rhoddion ag Eraill /Donations & Sundries			405.58
Cyfanswm Incwm		**A**	**19,776.69**
GWARIANT / EXPENDITURE			
Cyflogau / Salaries			9,035.06
Costau Rhent a Gwres /Rent & Heating Costs			928.00
Ffioedd Cofrestru a Chynllun TWERegistration & PAYE Scheme Fees			1,241.00
Offer, Nwyddau ag Adnoddau /Equipment, Materials & Resources			5,555.27
Costau Bwyd a Diod /Food & Drink Costs			-
Codi Arian / Fundraising			95.00
Eraill / Other			2,637.73
Cyfanswm Gwariant /Expenditure Total		**B**	**19,492.06**
Gweddill (diffyg) am y flwyddyn= A - BSurplus (deficit) for the yea		**C**	284.63
Arian a'r ddechrau'r flwyddyn(dylid cynnwys cyfanswm pob		**CH**	0.00
Arian ar ddiwedd y flwyddyn = C + CH Cash at Year end		**D**	284.63
Balans Banc@ 31.3.			*1,880.94*

Archwilwyd y Cyfrif a chafwyd yn gywir: Lowri Williams

Dyddiad: Pwyllgor Cylch 26 Mehefin 2024

Datganiad Ariannol Cylch Meithrin Edern 2023/2024

Ysgol Feithrin Edern	**2023/24**		*Diweddarwyd 18/05/2024*
			UNION / EXACT
			Blwyddyn / Year 1.4.23 - 31.3.24
			£
INCWM / INCOME			
Grant Mudiad Meithrin Grant			-
Grant Arian Plant 3 oed /3yr old Education Funding Grant			6,900.00
Grant Cynaladwyedd /Sustainability Grant			-
Grant Dechrau'n Deg /Flying Start Grant			-
Grantiau Eraill / Other Grants			6,492.00
Incwm Hyfforddi(e.e CWG) a DwyloYchwanegol /Training			-
Ffioedd Plant / Children's Fees			5,181.00
Codi Arian / Fundraising			798.11
Rhoddion ag Eraill /Donations & Sundries			405.58
Cyfanswm Incwm		**A**	**19,776.69**
GWARIANT / EXPENDITURE			
Cyflogau / Salaries			9,035.06
Costau Rhent a Gwres /Rent & Heating Costs			928.00
Ffioedd Cofrestru a Chynllun TWERegistration & PAYE Scheme Fees			1,241.00
Offer, Nwyddau ag Adnoddau /Equipment, Materials & Resources			5,555.27
Costau Bwyd a Diod /Food & Drink Costs			-
Codi Arian / Fundraising			95.00
Eraill / Other			2,637.73
Cyfanswm Gwariant /Expenditure Total		**B**	**19,492.06**
Gweddill (diffyg) am y flwyddyn= A - BSurplus (deficit) for the yea		**C**	284.63
Arian a'r ddechrau'r flwyddyn(dylid cynnwys cyfanswm pob		**CH**	0.00
Arian ar ddiwedd y flwyddyn = C + CH Cash at Year end		**D**	284.63
Balans Banc@ 31.3.			*1,880.94*